**PWYLLGOR TROSOLWG A CHRAFFU'R AMGYLCHEDD A'R ECONOMI**
**DYDD MAWRTH, 12 MEDI 2023**

Minutes of the meeting of the Pwyllgor Trosolwg a Chraffu'r Amgylchedd a'r Economi of Flintshire County Council held at Cyfarfod Hybrid on Dydd Mawrth, 12fed Medi, 2023

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd David Evans (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr: Mike Allport, Mel Buckley, Chris Dolphin, Ray Hughes, Richard Lloyd, Mike Peers, Vicky Perfect, Dan Rose, a Roy Wakelam

**DIRPRWYON:** Y Cynghorydd Bill Crease ar ran y Cynghorydd Ian Hodge a'r Cynghorydd Andrew Parkhurst ar ran y Cynghorydd Hilary McGuill.

**CYFRANWYR:**
Y Cynghorydd Dave Hughes (Dirprwy Arweinydd y Cyngor ac Aelod Cabinet y Gwasanaethau Stryd a'r Strategaeth Trafnidiaeth Rhanbarthol), y Cynghorydd Chris Bithell (Aelod Cabinet Cynllunio, Iechyd y Cyhoedd a Gwarchod y Cyhoedd), Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Rheolwr Diogelu Busnes a'r Gymuned, Rheolwr y Rhwydwaith Priffyrdd, Cydlynydd Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth Ardal 6, Rheolwr Tîm (Gweinyddu a Gorfodi, Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth), Rheolwr Ymchwiliadau Safonau Masnach a Diogelwch Cymunedol, a'r Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol

**HEFYD YN BRESENNOL:** Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 1. DATGAN CYSYLLTIAD (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Ni ddatganwyd unrhyw gysylltiad.

## 2. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf 2023.

Cynigiwyd ac eiliwyd bod y cofnodion yn gywir gan y Cynghr. Roy Wakelam a Mike Peers.

**PENDERFYNWYD:**

Cymeradwyo cofnodion y cyfarfod fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi.

## 3. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC OLRHAIN CAMAU GWEITHREDU

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Democrataidd y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a'r adroddiad Olrhain Camau Gweithredu.

Cyfeiriodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd ar yr adroddiad Olrhain Camau Gweithredu a dywedodd fod y ddau gam gweithredu a oedd yn

weddill wedi'u cwblhau. Cyfeiriodd hefyd at y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol a thynnodd sylw at yr eitemau sydd wedi'u rhestru dan gyfarfodydd nesaf y Pwyllgor ar 10 Hydref ac 14 Tachwedd 2023.

Gwahoddwyd yr Aelodau i gynnig unrhyw eitem arall yr oeddent yn dymuno ei chynnwys ar y Rhaglen. Cynigiodd y Cyng. Mike Peers y dylid cael eitem ar orfodi er mwyn ystyried materion sy'n berthnasol i'r Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yr Amgylchedd a'r Economi a nododd parcio, mannau cyhoeddus, rheoli cŵn a baw cŵn fel enghreifftiau. Cytunodd y Pwyllgor ar hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol yn amodol ar y newidiadau uchod;

(b) Rhoi awdurdod i'r Hwylusydd, mewn ymgynghoriad â Chadeirydd y Pwyllgor, i amrywio'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol rhwng cyfarfodydd, yn ôl yr angen; a

(c) Bod y Pwyllgor yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i wneud o ran y camau gweithredu sydd heb eu cwblhau.

## 4. ADOLYGU'R POLISI CYNNAL A CHADW YN Y GAEAF

Cyflwynodd y Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) yr adroddiad i geisio cymeradwyaeth ar gyfer y Polisi Cynnal a Chadw yn y Gaeaf diwygiedig, sy'n cynnwys manylion ymateb y Cyngor i ddigwyddiadau tywydd garw brys.

Darparodd y Prif Swyddog wybodaeth gefndir a gofynnodd i Reolwr y Rhwydwaith Priffyrdd gyflwyno'r adroddiad a oedd yn amlinellu'r Polisi Cynnal a Chadw yn y Gaeaf cyfredol (Atodiad 1), y gofynion deddfwriaethol wrth ddarparu gwasanaeth o'r fath, a'r camau a gymerir gan y portffolio Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth i gefnogi gwaith cynnal a chadw yn y gaeaf. Yn ogystal, roedd yr adroddiad yn amlinellu ymateb y sir i achosion eraill o dywydd gwael megis glaw trwm a gwyntoedd cryfion.

Cyfeiriodd y Cyng. Roy Wakelam at adran 3.3.1 y Polisi ynglŷn â deunyddiau dad-rewi sy'n awgrymu bod y contract graeanu wedi dod i ben. Dywedodd Reolwr y Rhwydwaith Priffyrdd fod yna wall yn y Polisi ac y byddai'n rhoi gwybod i'r Pwyllgor am ddyddiadau'r contract newydd. Ychwanegodd fod y contract yn cael ei drafod yn genedlaethol.

Cyfeiriodd y Cyng. Mike Peers at y ddyletswydd i sicrhau, cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol, nad yw teithio'n ddiogel ar hyd priffordd yn cael ei beryglu gan eira neu rew (Deddf Priffyrdd 1980, Adran A1), a thynnodd sylw pawb at ffordd a aeth yn rhewllyd oherwydd dŵr wyneb. Ymatebodd y swyddogion i gwestiynau a phryderon pellach gan y Cyng. Peers ynghylch biniau gaean, gorsafoedd tywydd, trefn blaenoriaethu ffyrdd, a chontractwyr amaethyddol. Eglurodd y Prif Swyddog sut y defnyddir rhagolygon gorsafoedd tywydd, a sut caiff llwybrau pwysig a strategol eu blaenoriaethu.

Ymatebodd y swyddogion hefyd i gwestiynau'r Cyng. Richard Lloyd mewn perthynas â dyrannu biniau graean, dosbarthu bagiau tywod i ardaloedd gyda pherygl llifogydd, a recriwtio gyrwyr.

Ymatebodd y swyddogion i gwestiwn gan y Cadeirydd ar effaith ddisgwyliedig terfyn cyflymder newydd Llywodraeth Cymru o 20mya ar ffyrdd cyfyngedig ar draws Cymru ar ddarpariaeth y gwasanaeth.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghr. Mike Peers a Roy Wakelam.

**PENDERFYNWYD:**

a) Nodi'r Polisi Cynnal a Chadw yn y Gaeaf diwygiedig fel y'i cyflwynir yn yr adroddiad hwn ac sydd ynghlwm wrth Atodiad 1;

(b) Nodi ymateb y portffolio i'r tywydd garw a gafwyd yn ystod 2022-2023;

(c) Cefnogi'r angen parhaus i gynnal y gyllideb refeniw fel y mae ynghyd â gwerth £250,000 o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi;

(d) Cyflwyno adroddiad arall i'r Pwyllgor yn 2024 yn dilyn adolygiad y darparwr rhagolygon tywydd o dymor 2023-2024 mewn perthynas â gwneud penderfyniadau ynghylch triniaethau lleoliadau penodol.

## 5. ADOLYGU GORCHMYNION DIOGELU MANNAU CYHOEDDUS (PSPO)

Cyflwynodd y Rheolwr Diogelu Busnes a'r Gymuned yr adroddiad i adolygu'r Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus presennol cyn i'r Cabinet eu hystyried. Darparodd wybodaeth gefndir a chyfeiriodd at y prif ystyriaethau, fel y manylir arnynt yn yr adroddiad.

Rhoddodd y Rheolwr Ymchwiliadau Safonau Masnach a Diogelwch Cymunedol a Rheolwr Tîm (Gweinyddu a Gorfodi Gwasanaethau Stryd a Thrafnidiaeth) gyflwyniad ar y cyd a oedd yn ymdrin â'r pwyntiau canlynol:

- Mapiau o'r mynediad newydd
- Canlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn
- Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus presennol – rheoli alcohol
- Canlyniadau'r ymgynghoriad ynghylch Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus – Alcohol
- Gorfodi Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Rheoli Cŵn
- Camau Nesaf

Gwnaeth y Cyng. Richard Lloyd sylw ar yr angen am wella arwyddion a gorfodi mewn rhai ardaloedd.

Gwnaeth y Cyng. Mike Peers sylw ar yr anawsterau posibl y gall pobl hŷn neu bobl anabl gyda symudedd gwael godi baw ci a dywedodd bod angen ystyried beth yw'r ffordd orau i ddelio â'r broblem hon. Ymatebodd y swyddogion i sylwadau'r Cyng. Peers ynglŷn â'r ymateb a roddwyd i'r ymgynghoriad ar dudalen 72 a 73 yr adroddiad.

Gofynnodd y Cyng. Andrew Parkhurst a fyddai eithriadau yn cael eu gwneud i bobl sy'n defnyddio cŵn tywys neu gŵn cymorth eraill.

Hefyd, gofynnodd y Cyng. Andrew Parkhurst pan nad oedd yr ymgynghoriad cyhoeddus yn caniatáu i'r cyhoedd wneud sylwadau gan mai ymgynghoriad oedd yn hytrach na refferendwm, a dywedodd fod y sylwadau a anfonwyd ar wahân ar e-bost yn ei farn ef yn darparu mwy o wybodaeth nag edrych ar ganran yr ymatebion i bob cwestiwn. Derbyniodd y swyddogion y pwynt a dweud y bydd ymgynghoriadau eraill ynghylch Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus yn cynnwys cyfleuster i ychwanegu sylwadau. Gofynnodd y Cadeirydd i bob ymgynghoriad y Cyngor Sir gynnwys lle i wneud sylwadau.

Cytunodd y swyddogion i ymateb i'r Cyng. Mike Allport ar ôl y cyfarfod ar fater penodol a gododd yn ymwneud â darn o dir yn ward Higher Kinnerton.

Cafodd yr argymhellion yn yr adroddiad eu cynnig gan y Cyng. Bill Crease a'u heilio gan y Cyng. Mike Peers. Ar ôl pleidlais, cafodd yr argymhellion eu derbyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Estyn y Gorchmynion Gwarchod Mannau Cyhoeddus i gynnwys rheoli cŵn ac alcohol yn Sir y Fflint.

Bydd gofyn i'r Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus sicrhau bod unigolion sy'n gyfrifol am gi yn gwneud y canlynol:

(i) Cael gwared ar wastraff eu ci o'r holl lefydd cyhoeddus yn Sir y Fflint.
(ii) Gwahardd cymryd, neu ganiatáu i'r ci fynd neu aros yn yr ardaloedd canlynol:
- ardal o fewn tir ysgol
- ardaloedd chwarae meysydd chwaraeon wedi'u marcio
- ardaloedd chwarae mewn ardaloedd hamdden ffurfiol gan gynnwys ond nid yn gyfyngedig i lawntiau bowlio a chyrtiau tennis
- ardaloedd chwarae plant caeedig
- llwybr gyda ffensys o amgylch The Rosie, Parc Gwepra, Cei Connah, fel y nodir ar Fap 1 (Atodiad 3)
- Parc Coffa'r Wyddgrug, Maes Bodlonfa, yr Wyddgrug fel y nodir ar Fap 2 (Atodiad 4)

(iii) Cadw eu ci ar dennyn mewn mynwent.
(iv) Sicrhau bod ganddynt fodd priodol o godi gwastraff eu ci o'r holl lefydd cyhoeddus yn Sir y Fflint.
(v) Rhoi eu cŵn ar dennyn, ar gais swyddog awdurdodedig os yw'r ci yn rhydd ac yn achosi niwsans neu annifyrrwch i unigolyn, aderyn neu gi arall.

Effaith y Gorchymyn Gwarchod Mannau Cyhoeddus Alcohol yw gosod y gwaharddiadau a/neu'r gofynion canlynol mewn mannau cyhoeddus yn Sir y Fflint, drwy'r amser

(i) Mae unrhyw berson sydd, heb esgus rhesymol, yn parhau i yfed diod feddwol mewn man cyhoeddus o fewn Ardal y Cyfyngedig pan ofynnir swyddog awdurdodedig iddo beidio, yn cyflawni trosedd.

(ii) Mae unrhyw berson sydd, mewn man cyhoeddus o fewn Ardal y Cyfyngiad, heb esgus rhesymol, sy'n methu ag ildio unrhyw ddiod feddwol sydd yn eu meddiant pan fydd swyddog awdurdodedig yn gofyn iddo beidio, yn cyflawni trosedd.

(iii) Mae'n rhaid i swyddog awdurdodedig sy'n gosod gofyniad dan Erthygl 4(a) a/neu 4(b) uchod ddweud wrth y person fod methu â chydymffurfio â'r gwaharddiad ac/neu'r gofyniad, heb esgus rhesymol, yn drosedd.

(b) Nodi er gwybodaeth, ond yn amodol ar benderfyniad terfynol y Cabinet, bod y Gorchmynion Gwarchod Mannau Agored sy'n cwmpasu rheolaeth cŵn ac alcohol yn dechrau ar 29 Hydref 2023, yn dilyn cyfnod rhybudd a chyhoeddusrwydd y gorchymyn sydd ar ddod.

## 6. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM GLEFYD COED YNN

Cyflwynodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol yr adroddiad i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau ar sut mae Cyngor Sir y Fflint wedi mynd i'r afael â chlefyd coed ynn yn 2022/23 yn unol â Chynllun Gweithredu Clefyd Coed Ynn 2019. Darparodd wybodaeth gefndir ac adroddodd ar y prif ystyriaethau, fel y manylwyd yn yr adroddiad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cyng. Bill Crease eglurodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol fod cwmpas cyfyngedig i ad-ennill cost torri coed.

Gofynnodd y Cyng. Mike Peers a yw Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw gymorth ariannol i awdurdodau lleol fynd i'r afael â chlefyd coed ynn, sy'n broblem genedlaethol a gwnaeth sylwadau ar y cynnydd posibl yn y gost yn y dyfodol. Ymatebodd y Rheolwr Mynediad a'r Amgylchedd Naturiol i sylwadau'r Cyng. Peers a darparodd wybodaeth ar gwestiwn arall a ofynnwyd ynglŷn â'r rhaglen adfer i ailblannu coed yn lle'r coed a dorrwyd oherwydd y clefyd.

Cynigiwyd ac eiliwyd yr argymhelliad yn yr adroddiad gan y Cynghr. Richard Lloyd a Roy Wakelam.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r wybodaeth ddiweddaraf a chefnogi swyddogion gyda'u gwaith parhaus i fynd i'r afael â chlefyd coed ynn.

## 7. AELODAU O'R WASG YN BRESENNOL

Nid oedd unrhyw aelod o'r wasg na'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 11.32am)

……………………………………………
**Chairman**